



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru/ AaGIC Statws gweithiwr allweddol myfyrwr 18.09.20.

Mae'r datganiad sefyllfa hwn yn cadarnhau bod gan fyfyrwr meddygol, nyrsio, bydwreigiaeth, proffesiynau perthynol i iechyd a gwyddor gofal iechyd statws gweithiwr allweddol parhaus wrth gyflawni lleoliadau¹ ymarfer fel rhan o'u rhaglen ddysgu.

Mae Llywodraeth Cymru/Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr myfyrwr o ran darparu iechyd a gofal gydol y pandemig. A ninnau'n symud y tu hwnt i ddefnyddio contractau myfyrwr a safonau argyfwng rheoleiddio i drefniadau lleoliad y 'normal newydd', mae cyfraniad parhaol myfyrwr at wella'r ddarpariaeth gofal law yn llaw â'u dysgu personol yn aruthrol.

Mae gan brifysgolion, darparwyr lleoliadau a phob rhanddeiliad allweddol drefniadau diwygiedig ar waith i alluogi myfyrwr (yn amodol ar asesiad risg unigol), i barhau â chyfleoedd dysgu ar leoliad a gweithio tuag at gwblhau gofynion rhaglenni yn amserol er gwaethaf effaith barhaus amodau'r pandemig.

Mae cyfres o Egwyddorion Adfer Lleoliadau COVID-19 Cymru gyfan yn darparu canllawiau i ddarparwyr lleoliadau, prifysgolion a chyrrff allweddol mewn perthynas â dysgu ar leoliad dan amgylchiadau newydd COVID-19:

<https://aaqic.gig.cymru/files/egwyddorion-adfer-lleoliadau-covid-19-cymru-gyfan/>;
<https://aaqic.gig.cymru/files/principles-for-restarting-med-ed-v2/>

Mae Llywodraeth Cymru/AaGIC yn cadarnhau y bydd myfyrwr yn parhau i gadw statws gweithiwr allweddol tra'n ymgymryd â lleoliadau ymarfer ac yn cael gafael ar y dogfennau angenrheidiol i gadarnhau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru/AaGIC yn cydnabod, fel gweithwyr allweddol, y gallai fod yn ofynnol i fyfyrwr groesi ffiniau cyfyngiadau symud lleol hefyd er mwyn parhau â'u profiad lleoliad. Lle bynnag y bo modd, bydd prifysgolion a darparwyr lleoliadau yn gweithio i gefnogi myfyrwr i barhau ar y lleoliad a ddyrannwyd iddynt. Wrth wneud hynny, rhaid i fyfyrwr gadw at yr holl ganllawiau diogelwch o safbwynt sefydliadol lleol a chenedlaethol.

Dolenni:

Adnodd asesu risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu <https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu>

Cynllun Yswiriant Bywyd (gan gynnwys myfyrwr ar leoliad):

<https://www.nhsbsa.nhs.uk/nhs-and-social-care-coronavirus-life-assurance-scheme-2020-wales>

¹ Ymhlith yr 'esgus rhesymol' i fynd i mewn neu adael ffin gyfyngedig COVID-19 mae "teithio i'w gwaith neu addysg" (diweddariad COVID-19 16.09.20. Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).